# GAG Newsletter

Editor: Laurie Wright

**Greener Aberystwyth Group** **No. 30** **May 2024**

www.aber-gag.org.uk https://www.facebook.com/aber.gag/

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Trees lost in Park Avenue







Four trees in Park Avenue which were planted by the county council on council-owned land in front of the proposed Aldi site were removed. The original planning application, which was granted outline permission, did not include the area in front of the blue hoarding (see 1st photo). It showed the trees as being left intact. In the summer of 2020, the hoarding was moved forward to the pavement (see 2nd photo) and the original trees were destroyed.

More recently, replacement trees have been planted, but are at the moment hidden by the fence.



Further along the road, trees and shrubs were destroyed in late 2023 in the retail park by Morrison's roundabout. These acted as a good screen from the shops and provided a good pollution filter from the traffic. They also contributed to the greening of the Aberystwyth approach road, in which the Coed Aber planting scheme played a major part. This "Green Welcome" effect is being steadily lost.

GAG has emailed the developers voicing concern and asking what plans they have. No acknowledgement has been received.

## Trees planted near Ysgol Penweddig



Beside the cycle route/path from Llanbadarn to Plas Crug, a triangle of ground has been planted with young trees. This area has now been tidied up and grass removed from the protective tree tubes to free the saplings from competition. They all look healthy.

## Coed Aber




Some of the trees along Park Avenue and Boulevard de Saint-Brieuc need their labels replaced. The Town Council is applying for a grant to cover the cost, and GAG will be involved in the design and fitting of the new labels. The sign boards are referred to, with pictures, in the Coed Aber tree walk leaflet, which is still very popular. The leaflet can also be printed from this link.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Tree planting in Llanbadarn



Llanbadarn Fawr Community Council has been accepted onto the Woodland Trust Community planting scheme and has received a range of tree saplings to be planted on the community playing field. The scheme is intended to allow everyone to have a chance to plant a tree to fight the effects of climate change and to help reach the 2050 carbon net-zero target.

A Community planting session was held in April. The trees are being planted around the borders of the field, together with a new boundary fence, which is being installed with grant support from Ceredigion County Council and assistance from Vince Morgans of Llety Parc.

## Grass cutting



Grass cutting in many areas in Aberystwyth is now restricted to the edges, leaving a central area of longer grass in which wild flowers can flourish. This gives valuable help to pollinators such as bees and butterflies.

We can all help wildlife by joining Plantlife's *NoMowMay* movement and leaving grass uncut.

**A healthy lawn with some long grass and wildflowers benefits wildlife, tackles pollution and can even lock away carbon below ground. With over 20 million gardens in the UK, even the smallest grassy patches add up to a significant proportion of our land which, if managed properly, can deliver enormous gains for nature, communities and the climate.**

See:
https://www.plantlife.org.uk/campaigns/nomowmay/

## Plas Crug tree labels



Aberystwyth Town Council is taking responsibility for all the green areas along Plas Crug Avenue and will provide replacement labels for some of the trees, which GAG will fit.

## Strimmer tree guards




GAG has recently been awarded a grant of £200 from Aberystwyth Town Council to purchase and install 50 more strimmer guards around the base of trees in public places in and around Aberystwyth. If anyone would like to help install them, please contact the secretary, Michael Freeman (michael.freeman9@btinternet.com). Over the years, GAG has fitted protection to many trees in the town.

## Parc Natur Penglais

A new path above Cooper's Corner with spectacular views over the town is now finished. The official opening will take place at 11am on Saturday May 18th.

# Cylchlythyr

**Rhifyn 30 Mai 2024** **Grŵp Aberystwyth Gwyrddach**

www.aber-gag.org.uk https://www.facebook.com/aber.gag/

~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Coed wedi mynd yn Park Avenue







Collwyd y bedair coeden a blannwyd gan y Cyngor Sir ar dir y cyngor o flaen safle Aldi yn Park Avenue. Doedd y cais cynllunio gwreiddiol a gafodd ganiatad amlinellol ddim yn cynnwys y tir o flaen y ffens las (gw. llun cyntaf). Roedd y coed i fod yn cael eu cadw. Yn haf 2020, cafodd y ffens ei symud ymlaen i'r palmant (gw. llun 2) a diflannodd y coed.

Yn fwy diweddar, plannwyd coed yn lle y rhai gwreiddiol, ond ni ellir eu gweld o'r ffordd oherwydd y ffens.



Nes ymlaen yn yr un ffordd, dinistriwyd coed yn 2023 yn y parc masnachu wrth gylchfan Morrisons. Roedd y coed yn sgrîn da rhwng y ffordd a'r siopau, yn ogystal â lleihau'r llygredd sy'n dod o'r traffig. Roeddent hefyd yn rhan o'r ymdrech i wneud y ffordd fewn i'r dre yn wyrddach. Roedd cynllun Coed Aber yn chwarae rhan bwysig yn yr ymgyrch. Mae'r "Croeso Gwyrdd" yn cael ei wanhau.
Mae GAG wedi anfon ebost i'r datblygwyr i fynegi ei siom a gofyn beth yw eu cynlluniau. Ni dderbyniwyd ateb i'r neges.

## Coed newydd wrth Ysgol Penweddig



Wrth ochr y llwybr seiclo rhwng Llanbadarn a Plas Crug, mae triongl o dir wedi cael ei blannu â choed ifainc. Tacluswyd y tir, a thorrwyd y glaswellt o gwmpas y coed i roi chwarae teg iddynt. Mae'r coed i gyd yn edrych yn iach.

## Coed Aber




Mae angen labeli ac arwyddion newydd ar rai coed ar hyd Park Avenue a Boulevard de Saint-Brieuc. Mae Cyngor y Dre yn gwneud cais am arian i dalu am y labeli, a bydd GAG yn helpu i gynllunio'r labeli newydd a'u gosod. Mae sôn am yr arwyddion yn nhaflen *Llwybr Coed Aberystwyth*, sy'n dal yn boblogaidd. Gellir printio copi eich hun trwy'r ddolen hon.
~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~~

## Plannu coed yn Llanbadarn



Mae Cyngor Cymuned Llanbadarn Fawr wedi cael debyniad i'r cynllun plannu cymunedol Coed Cadw ac wedi derbyn amrywiaeth o goed ifanc i'w plannu ar gae chwarae'r gymuned. Bwriad y cynllun yw caniatáu i bawb gael cyfle i blannu coeden i wrthsefyll effeithiau newid hinsawdd a helpu i gyrraedd targed carbon net-sero 2050.

Bu sesiwn plannu cymunedol ym mis Ebrill. Mae'r coed yn cael eu plannu ar hyd llinell ffens ffiniol newydd sy'n cael ei gosod trwy gymorth grant gan Gyngor Sir Ceredigion a chymorth gan Vince Morgans, Llety Parc.

## Torri glaswellt



Mae glaswellt yn llawer o lefydd yn Aberystwyth yn cael ei dorri o gwmpas yr ymylon yn unig gan adael glaswellt yn y canol i dyfu, er mwyn i'r blodau gwyllt ffynnu. Mae hyn yn help mawr i bryfed peillio megis gwenyn a pili-palas.

Gallwn ni i gyd helpu bywyd gwyllt trwy ymuno ag ymgyrch Plantlife *MaiDiDor*.

**Mae lawnt iach gyda rhywfaint o laswellt heb ei dorri a blodau gwyllt o fudd i fywyd gwyllt. Mae'n mynd i'r afael â llygredd a gall hyd yn oed gloi carbon o dan y ddaear. Gyda mwy nag 20 miliwn o erddi yn y DU, mae hyd yn oed y darnau glaswellt lleiaf yn cyfrif am gyfran sylweddol o'n tir ni, sydd o'i reoli'n iawn yn gallu sicrhau manteision aruthrol i fyd natur, cymunedau a'r hinsawdd.**

Gweler: https://www.plantlife.org.uk/campaigns/mai-di-dor/?lang=cy

## Coedlan Plas Crug



Mae Cyngor Tre Aberystwyth yn derbyn cyfrifoldeb am y mannau gwyrdd ar hyd Coedlan Plas Crug. Bydd hefyd y darparu rhagor o labeli i'r coed i'w rhoi yn lle y rhai sydd wedi dirywio. Bydd GAG yn eu gosod.

## Amddiffyn coed rhag cael eu strimio




Cafodd GAG grant o £200 yn ddiweddar gan Gyngor Tre Aberystwyth i brynu a gosod giardiau sy'n amddiffyn coed rhag peiriannau strimio. Os ydych am helpu ni i'w gosod, gallwch gysylltu â'r ysgrifennydd Michael Freeman (michael.freeman9@btinternet.com). Dros y blynyddoedd, mae GAG wedi gosod giardiau ar lawer o goed yn y dre.

## Parc Natur Penglais

Mae llwybr newydd uwchben cornel Y Cwps gyda golygfeydd godidog dros y dre wedi cael ei orffen. Bydd agoriad swyddogol am 11 y.b. ar ddydd Sadwrn 18 Mai.